# Ymgynghoriad 2019 o'r adolygiad o'r mannau chwarae a thorri porfa a'r taliadau ychwanegol posibl ar gyfer defnyddio caeau chwarae a phafiliynau chwaraeon

Mae'r **Ymgynghoriad yn dechrau** ar: **17 Ebrill 2019**

Ac yn **dod I ben am 5pm** on: **10 Gorffennaf 2019**

Am ragor o wybodaeth ewch i
**https://www.bridgend.gov.uk/ymgynhoriadau**
- bydd modd i chi gael manylion am y cynigion a llenwi holiadur.

Os oes angen copi called o'r holiadur arnoch chi, cysylltwch a ni:

consultation@bridgend.gov.uk

01656 643664

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.

## Cefndir

Ers cyflwyno mesurau caledi, mae’r cyllid ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol ledled Cymru wedi cael ei gwtogi’n sylweddol. Dros y 4 blynedd nesaf, rhagwelir y bydd rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wneud arbedion pellach gwerth cyfanswm o £36.4m. Felly mae rhaid i'r cyngor wneud penderfyniadau anodd iawn oherwydd y lefelau o doriadau yn y gyllideb sy'n ofynnol o ran darparu:

- cyfleusterau chwaraeon awyr agored a phafiliynau chwaraeon parciau
- parcdir ac ardaloedd lle torrir glaswellt a gynhelir
- meysydd chwarae ac ardaloedd chwarae plant

O fewn yr holiadur hwn mae tair adran i chi eu cwblhau ar bob un o’r uchod.

Bydd eich barn o gymorth i’r Cyngor wneud penderfyniadau ynghylch dyfodol mannau chwarae a meysydd chwarae, cynnal parciau a thorri porfa a chyfleusterau chwaraeon tu allan, parciau a phafiliynau chwaraeon.

## Rhybudd GDPR

Bydd y wybodaeth a ddarperir gennych ar y ffurflen hon yn cael ei defnyddio i lywio'r adroddiad ymgynghori ar barciau, pafiliynau a meysydd chwarae

Bydd y cyngor yn cymryd pob rhagofal rhesymol i sicrhau cyfrinachedd ac i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Efallai y caiff eich gwybodaeth ei rhannu gyda'r Cabinet a'r adran Parciau at ddibenion yr ymgynghoriad ar barciau, pafiliynau a meysydd chwarae. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw yn unol â Pholisi Cadw Data'r Cyngor.

Mae gennych nifer o hawliau dan ddeddfwriaeth diogelu data. Gallwch hefyd dynnu eich caniatâd yn ôl a gofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol ar unrhyw adeg drwy gysylltu â ni. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael ar ein gwefan neu gallwch gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data.

Os ydych chi'n anfodlon ar y ffordd rydym yn prosesu eich data personol, yna mae gennych yr opsiwn i wneud cwyn i'r Swyddog Diogelu Data a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Cwblhewch yr adran ‘amdanoch chi’ isod ac yna symud ymlaen i’ch adran(nau) berthnasol.

## Amdanoch chi:

*Cwblhewch yr adran ‘amdanoch chi’ isod ac yna symud ymlaen i’ch adran(nau) berthnasol.*

Ydych chi'n byw ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw

Ydych chi’n:

- ☐ Gwryw
- ☐ Benyw
- ☐ Trawsryweddol
- ☐ Gwell gen i beidio â dweud

Beth yw eich grŵp oedran?

- ☐ Dan 16
- ☐ 16-25
- ☐ 26-45
- ☐ 46-60
- ☐ 60+

Ydych chi'n ystyried eich bod yn anabl? Dewiswch un opsiwn yn unig.

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Gwell gen i beidio â dweud

# Adolygiad ardal chwarae

## Adolygiad ardal chwarae

Mae'r cyngor yn darparu ac yn cynnal 108 o ardaloedd chwarae plant sydd ag offer chwarae sefydlog fel siglenni, llithrennau, chwyrligwgans, siglwyr, fframiau dringo ar draws y fwrdeistref sirol. Yn ogystal, mae'r cyngor yn buddsoddi symiau o arian cyfalaf yn cyfnewid hen offer chwarae sydd wedi'u difrodi a'u fandaleiddio.

Er bod rhai o'r ardaloedd chwarae hyn yn cael eu defnyddio'n dda, mae eraill yn llai poblogaidd ac yn dioddef o fandaliaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn rheolaidd. Mae'r cyngor yn ystyried adolygiad o nifer yr ardaloedd chwarae plant a ddarperir a sut y caiff y cyfleusterau hyn eu cynnal a'u rheoli. Gallai hyn gynnwys gwella rhai ardaloedd chwarae a lleihau'r rhai a ddefnyddir yn llai aml neu sy’n cael eu difrodi/fandaleiddio yn rheolaidd.

Mae'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae yn ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd ac mae'n ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn eu hardaloedd, cyn belled ag sy'n rhesymol ac yn ymarferol.

Mae'n bwysig ein bod yn deall effaith y cynigion cyn gwneud penderfyniad terfynol ar gyflwyno proses o resymoli ardaloedd chwarae. Bydd eich cyfranogiad yn yr ymgynghoriad hwn yn galluogi'r cyngor i fesur effaith y cynigion hyn ar ddefnyddwyr ac i gydbwyso hyn yn ôl anghenion gwasanaeth ehangach y gymuned.

**Dywedwch wrthym am eich defnydd o'r cyfleusterau hyn**

Pa mor aml ydych chi'n defnyddio ardaloedd chwarae'r cyngor ag offer chwarae sefydlog fel siglenni, llithrennau ac ati.?

- ☐ Dyddiol
- ☐ Misol
- ☐ Byth
- ☐ Wythnosol
- ☐ Achlysurol

Ble mae prif ardaloedd chwarae'r cyngor ag offer chwarae sefydlog rydych chi'n eu defnyddio?

(Nodwch hyd at dair ardal os gwelwch yn dda)

Pa mor bell y byddech chi'n fodlon teithio i ddefnyddio maes chwarae?

- ☐ 0 i 1 filltir
- ☐ 4-5 milltir
- ☐ 2 i 3 milltir
- ☐ Mwy na 5 milltir

Yn eich barn chi, pa mor werthfawr yw ardaloedd chwarae ag offer chwarae sefydlog i gymunedau?

- ☐ Gwerthfawr iawn
- ☐ Gwerthfawr
- ☐ Ansicr
- ☐ Ddim yn werthfawr
- ☐ Ddim yn werthfawr o gwbl

Ydych chi'n meddwl y dylai'r cyngor atgyweirio offer yn barhaus mewn ardaloedd chwarae ag offer chwarae sefydlog sy'n cael eu difrodi'n aml trwy fandaliaeth neu ymddygiad gwrthgymdeithasol?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ansicr

Ydych chi'n credu y dylai'r cyngor ganolbwyntio ar ariannu a chynnal meysydd chwarae/ardaloedd chwarae mawr sydd wedi'u lleoli'n strategol ledled y fwrdeistref yn hytrach na meysydd chwarae/ardaloedd chwarae mewn ardaloedd preswyl?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ansicr

A fyddech chi'n cefnogi eich cyngor tref neu gymuned lleol i gymryd y cyfrifoldeb dros weithredu'r meysydd chwarae/ardaloedd chwarae yn eich lleoliad? *Sylwch na fyddai hyn yn golygu cynnydd yn y cyllid sydd ar gael ar gyfer ardaloedd chwarae, ond byddai'n galluogi cyfleuster chwarae lleol i aros ar agor a allai gau fel arall.*

☐ Byddwn ☐ Na fyddwn ☐ Ansicr

A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'r adolygiad o'r ardal chwarae?

# Adolygiad o dorri porfa

## Adolygiad o dorri porfa

Mae'r cyngor yn rheoli ac yn cynnal amrywiaeth o wahanol asedau a mannau gwyrdd. Mae hyn yn cynnwys parciau ffurfiol (er enghraifft, Parc Griffin, Parc Lles Maesteg), caeau chwarae (er enghraifft, Newbridge Fields [Caeau’r Bontnewydd], Caeau Chwarae Llangynwyd, Locks Lane), mannau agored sy'n eiddo i'r cyngor mewn ardaloedd tai a glaswellt ar ymylon ffyrdd.

Oherwydd gostyngiadau yn y gyllideb, rhoddir ystyriaeth i leihau amlder torri glaswellt ar y safleoedd hyn.

**Cynnig un**: Cynigir y dylid lleihau torri glaswellt mewn mannau agored ac ymylon ffyrdd o 7 i 5 gwaith y flwyddyn.

**Cynnig dau**: Cynigir y bydd torri glaswellt mewn parciau (mae hyn yn cynnwys parciau, caeau chwarae, mannau agored achlysurol, ardaloedd tai, mannau chwarae pêl, ardaloedd chwarae plant) yn cael ei leihau o 16 i 12 gwaith y flwyddyn.

Ardaloedd a effeithir gan y newid hwn fydd ymylon priffyrdd, ardaloedd o laswellt ar y stryd a thir glaswellt agored arall fel y rhai ym meysydd chwarae plant ac ardaloedd llai ffurfiol eraill lle mae'r cyngor yn torri'r glaswellt ar hyn o bryd.

Ystyrir y gwasanaethau hyn yn bennaf fel rhai anstatudol, sy'n golygu nad oes rhaid i'r cyngor ddarparu gwasanaethau neu gyfleusterau o'r fath. Mae rhai eithriadau lle mae dyletswydd statudol lle mae diogelwch ar y ffyrdd yn cael ei effeithio megis ymlediadau gweledEdd glaswelltog ar briffyrdd.

Mae'n bwysig ein bod yn deall effaith y cynigion cyn gwneud penderfyniad terfynol ar leihau ardaloedd a pharcdir a gynhelir lle torrir glaswellt. Bydd eich cyfranogiad yn yr ymgynghoriad hwn yn galluogi'r cyngor i fesur effaith y cynigion hyn ar y cyhoedd ac i gydbwyso hyn yn ôl anghenion gwasanaeth ehangach y gymuned.

**Ydych chi'n cytuno â chynnig un?** A ddylid lleihau torri glaswellt mewn mannau agored ac ymylon ffyrdd o 7 i 5 gwaith y flwyddyn?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ansicr

Os na, a wnewch chi roi'r rhesymau

A oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar gynnig un?

**Ydych chi'n cytuno â chynnig dau?** A ddylid lleihau torri glaswellt mewn ardaloedd chwarae o 16 i 12 gwaith y flwyddyn?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ansicr

Os na, rhowch y rhesymau

A oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar gynnig dau?

Gallai'r Cyngor, fel rhan o'i fesurau arbed costau, nodi a gadael rhai mannau glaswelltog sy'n cael eu torri'n rheolaidd ar hyn o bryd, heb eu torri yn y dyfodol. Gan ganiatáu i'r ardaloedd hynny ddychwelyd i gynefin mwy naturiol. A fyddech chi'n cytuno â'r ymagwedd hwn?

☐ Byddwn ☐ Na fyddwn ☐ Ans

Os na, rhowch y rhesymau

| |
|---|
| |

A oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'r cynigion hyn?

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

# Cynnydd posibl yn y taliadau a godir am ddefnyddio caeau chwarae a phafiliynau chwaraeon

**Cynnydd posibl yn y taliadau a godir am ddefnyddio caeau chwarae a phafiliynau chwaraeon**

Mae'r cyngor yn darparu meysydd chwarae cyhoeddus, cyfleusterau chwaraeon awyr agored a phafiliynau parciau (“cyfleusterau chwaraeon”) y gellir eu llogi gan glybiau chwaraeon ac aelodau'r cyhoedd at ddibenion hamdden. Yn ystod yr ymgynghoriad cyllideb diweddar, roedd 60% o'r ymatebwyr yn cefnogi cynnydd mewn taliadau.

Mae rhestr lawn o gaeau chwarae, cyfleusterau chwaraeon a phafiliynau sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor ar gael yma:

https://www.bridgend.gov.uk/cy/preswylwyr/hamdden-diwylliant-a-llyfrgelloedd/parciau-a-chaeau-chwaraeon/

Mae'r cyngor yn darparu ac yn cynnal a chadw adeiladau pafiliwn, caeau chwarae, a lawntiau bowlio ar gyfer chwaraeon awyr agored y gellir eu llogi gan glybiau chwaraeon, unigolion a grwpiau at ddibenion hamdden a dibenion eraill. At ei gilydd mae’r cyngor yn darparu ar hyn o bryd:

- 40 maes pêl-droed
- 31 maes rygbi
- 9 sgwâr criced
- 17 lawnt fowlio

Ystyrir bod y gwasanaethau hyn yn anstatudol, sy'n golygu nad oes rhaid i'r cyngor ddarparu'r gwasanaethau neu'r cyfleusterau hyn ond yn hanesyddol mae wedi gwneud hynny ar sail cymhorthdal sylweddol, gan gwmpasu hyd at 80% o’r costau ar gyfartaledd. Yn anffodus, mae pwysau cyson a pharhaus ar y gyllideb yn golygu nad yw'r cyngor bellach yn gallu cyflwyno'r holl wasanaethau i'r un lefel ag a ddarparwyd yn flaenorol.

Gallai hyn olygu bod taliadau i ddefnyddio cyfleusterau chwaraeon sy'n eiddo i'r Cyngor yn cynyddu'n sylweddol, neu y bydd y prif ddefnyddwyr yn cymryd cyfrifoldeb am eu rheoli.
Mae'r cyngor yn ystyried cyflwyno taliadau adennill costau llawn o 1 Ebrill 2020 a rhoi'r gorau i'r grant bowlio blynyddol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i glybiau chwaraeon a chynghorau tref a chymuned ystyried a datblygu hunanreolaeth ar gyfleusterau o'r fath o dan drosglwyddiad asedau cymunedol ar ffurf cytundebau rheoli adnewyddadwy tymor byr neu brydles hirdymor, a thrwy hynny ni fyddent yn talu taliadau defnyddiwr i'r cyngor os caiff y cyfleusterau eu trosglwyddo.

Mae'r cyngor yn ymwybodol y gallai codi taliadau gael effaith niweidiol ar ddefnyddwyr ei gyfleusterau. Mae'r cyngor yn dymuno deall barn y cyhoedd a defnyddwyr clybiau chwaraeon.

Mae'n bwysig ein bod yn deall effaith y cynigion cyn gwneud penderfyniad terfynol ar gyflwyno adennill costau llawn ar gyfer cyfleusterau chwaraeon. Bydd eich cyfranogiad yn yr ymgynghoriad hwn yn galluogi'r cyngor i fesur effaith y cynigion hyn ar ddefnyddwyr ac i gydbwyso hyn yn ôl anghenion gwasanaeth ehangach y gymuned.

..............................................................................................

Os gwnaethoch nodi yn yr adran ‘amdanoch chi’ nad ydych chi’n byw ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr, dywedwch wrthym o ble rydych chi’n teithio i gael mynediad i gyfleusterau chwaraeon:

[ ]

Ydych chi'n defnyddio meysydd chwaraeon a/neu bafiliynau sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

Os ‘ydw’, ar gyfer beth ydych chi'n defnyddio meysydd chwarae a/neu bafiliynau'r cyngor? Dewiswch bob un sy'n berthnasol:

☐ Chwaraeon - Pêl-droed

☐ Chwaraeon - Rygbi

☐ Chwaraeon - Criced

☐ Chwaraeon – Bowlio

☐ Gweithgaredd y Pafiliwn, e.e. meithrinfa/cylch chwarae ac ati.

☐ Hamdden cyffredinol e.e. cerdded y ci, ymarfer corff, chwarae ac ati.

☐ Arall (pennwch)

[ ]

Os dewisoch chi ‘chwaraeon’, dywedwch wrthym beth yw eich rôl.

Dewiswch bob un sy'n berthnasol:

- ☐ Cadeirydd
- ☐ Ysgrifennydd
- ☐ Swyddog arall (pennwch)
- ☐ Aelod o glwb
- ☐ Chwaraewr clwb
- ☐ Cefnogwr clwb
- ☐ Rhiant/gwarcheidwad
- ☐ Arall (pennwch)

Dywedwch wrthym enw(au) a lleoliad(au) eich chwaraeon/clwb/gweithgaredd/grŵp. Dywedwch wrthym am bob clwb/grŵp chwaraeon rydych yn eu cyrchu.

| Enw'r clwb chwaraeon/gweithgaredd/grŵp: ysgrifennu’n rhydd | Prif leoliad y maes a/neu'r pafiliwn a ddefnyddir gan y clwb/sefydliad chwaraeon: |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

Os bydd *ffioedd* eich clwb chwaraeon/gweithgaredd/grŵp yn *cynyddu*, beth fyddai'r effaith yn eich barn chi?

Beth yn eich barn chi fyddai'n helpu i gyfyngu ar unrhyw effaith negyddol pe byddai *ffioedd* eich clwb/gweithgaredd/grŵp yn *cynyddu*?

Pe byddai'ch clwb chwaraeon /gweithgaredd/grŵp yn cau, beth fyddai'r effaith?

Beth yn eich barn chi fyddai'n helpu i gyfyngu ar unrhyw effaith negyddol

pe byddai eich clwb chwaraeon/gweithgaredd/grŵp yn cau?

Ydych chi'n credu y dylai eich cyngor tref neu gymuned leol ystyried cymryd cyfrifoldeb am redeg a hunanreoli meysydd chwaraeon a/neu bafiliynau? *Noder nad yw hyn yn golygu na fyddai ffioedd yn cynyddu.*

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ansicr

Os na, nodwch eich rhesymau

Unrhyw sylwadau pellach?

Ydych chi'n credu y dylai'r clybiau chwaraeon neu'r grwpiau pafiliwn ystyried cymryd cyfrifoldeb am redeg a hunanreoli meysydd chwaraeon a/neu bafiliynau? *Noder nad yw hyn yn golygu na fyddai ffioedd yn cynyddu*.

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ansicr

Os na, nodwch eich rhesymau

Unrhyw sylwadau pellach?

Ydych chi'n credu y byddai cyflwyno adfer costau llawn fesul cam dros nifer o flynyddoedd yn helpu clybiau chwaraeon/grwpiau i archwilio'r opsiwn o gymryd cyfrifoldeb am redeg a hunanreoli meysydd chwaraeon a/neu bafiliynau? *Noder nad yw hyn yn golygu na fyddai ffioedd yn cynyddu.*

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ansicr

Os na, nodwch eich rhesymau

Unrhyw sylwadau pellach?

Pa fath o gymorth yn eich barn chi fyddai'n cynorthwyo clybiau chwaraeon/grwpiau i ymgymryd â throsglwyddiad ased cymunedol?

Ydych chi'n credu y dylai clybiau chwaraeon/grwpiau sy'n cymryd cyfrifoldeb am redeg a hunanreoli meysydd chwaraeon allu codi ffens o amgylch perimedr y maes? Byddai hyn yn golygu mai dim ond y clwb/grŵp â gofal fyddai'n gallu cael mynediad i'r maes.

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ansicr

Os na, nodwch eich rhesymau

Unrhyw sylwadau pellach?

A oes gennych unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ar y cynigion hyn?

A fyddech chi'n hoffi i ni eich e-bostio unwaith y mae adroddiad yr ymgynghoriad ar gael?

☐ Byddwn ☐ Na fyddwn

Os ydych chi wedi ateb 'byddwn' rhowch eich cyfeiriad e-bost isod:

PANEL DINASYDDION
BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

# Y CYFLE I
## DDWEUD EICH DWEUD

- Dros 16 oed?
- Yn byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr?

---

**Ymunwch â'n Panel Dinasyddion**
i'n helpu ni i adolygu a gwella'r gwasanaethau rydych chi'n eu defnyddio

**I ymuno â'r Panel Dinasyddion, rhowch eich manylion cyswllt isod:**

## Monitro cydraddoldeb

I’n helpu i sicrhau ein bod yn cynnig gwasanaethau’n deg i bawb sydd eu hangen, byddem yn ddiolchgar os gallech ateb rhai cwestiynau eraill am eich hun. Bydd y wybodaeth rydych yn ei rhoi yn cael ei chadw’n cyfrinachol, ac ni chaiff ond ei defnyddio at y diben o fonitro cydraddoldeb.

**Nid oes rhaid ateb y cwestiynau hyn fel rhan o’r holiadur. Nid oes rhaid I chi ateb unrhyw gwestiynau os nad ydych eisiau gwneud hynny. Fel arall, gallwch ddewis ateb rhai ond nid eraill drwy ddewis yr opsiynau ‘Byddai’n well gennyf beidio dweud’.**

**A ydych chi’n fodlon ateb ychydig o gwestiynau eraill amdanoch eich hun? Dewiswch un opsiwn yn unig.**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw

**Dewiswch eich categori oedran.** Dewiswch un opsiwn yn unig.

- ☐ Dan 18
- ☐ 18 - 24
- ☐ 25 - 34
- ☐ 35 - 44
- ☐ 45 - 54
- ☐ 55 - 64
- ☐ 65 - 74
- ☐ 75+
- ☐ Mae’n well gennyf beidio ag ateb

**Ydych chi’n ystyried eich bod yn anabl? Dewiswch un yn unig.**

- ☐ Ydw (teipiwch yn y blwch isod)
- ☐ Nac ydw
- ☐ Mae’n well gennyf beidio ag ateb

**Nodwch yn y blwch isod**

| |
|---|
| |

**Sut y byddech yn disgrifio eich cenedligrwydd? Dewiswch un opsiwn yn unig.**

- ☐ Cymro/Cymraes
- ☐ Sais/Saesnes
- ☐ Albanwr/Albanes
- ☐ Gwyddel/Gwyddeles
- ☐ Ogledd Iwerddon
- ☐ Prydeiniwr
- ☐ Arall (nodwch yn y blwch isod)
- ☐ Mae'n well gennyf beidio ag ateb

**I ba grŵp ethnig yr ydych chi'n perthyn? Dewiswch un opsiwn yn unig.**

- ☐ Gwyn
- ☐ Cymysg / sawl grŵp ethnig
- ☐ Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig
- ☐ Du / Affricanaidd / Caribiaidd / du Prydeinig
- ☐ Grŵp ethnig arall (nodwch yn y blwch isod)
- ☐ Mae'n well gennyf beidio ag ateb

**Beth yw eich crefydd neu eich cred? Dewiswch un opsiwn yn unig.**

- ☐ Dim Crefydd
- ☐ Cristnogaeth
- ☐ Bwdhaidd
- ☐ Hindŵaidd
- ☐ Iddewig
- ☐ Mwslimaidd
- ☐ Sikh
- ☐ Unrhyw grefydd neu gred arall (teipiwch yn y blwch isod)
- ☐ Mae'n well gennyf beidio ag ateb

**Beth yw eich rhyw? Dewiswch un opsiwn yn unig.**

- ☐ Gwryw
- ☐ Benyw
- ☐ Trawsryweddol
- ☐ Mae'n well gennyf beidio ag ateb

**A ydych chi'n feichiog? Dewiswch un opsiwn yn unig.**

☐ Ydy
☐ Nac ydy
☐ Mae'n well gennyf beidio ag ateb

**A ydych chi wedi rhoi genedigaeth yn ystod y 26 wythnos diwethaf? Dewiswch un opsiwn yn unig.**

☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Mae'n well gennyf beidio ag ateb

**Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol? Dewiswch un opsiwn yn unig.**

☐ Heterorywiol / strêt
☐ Dyn Hoyw
☐ Lesbiaidd / merch hoyw
☐ Deurywiol
☐ Arall
☐ Mae'n well gennyf beidio ag ateb

**Beth yw eich statws priodasol? Dewiswch un opsiwn yn unig.**

☐ Sengl
☐ Â phartner
☐ Priod
☐ Mewn partneriaeth sifil
☐ Wedi ysgaru
☐ Gweddw
☐ Mae'n well gennyf beidio ag ateb

**A ydych chi'n gallu…**
Dewiswch mewn un opsiwn ym mhob rhes

| | Ddim o gwbl | Rhywfaint | Yn eithaf da | Yn rhugl | Mae'n well gennyf beidio ag ateb |
|---|---|---|---|---|---|
| siarad Cymraeg? | | | | | |
| darllen Cymraeg? | | | | | |
| Ysgrifennu Cymraeg? | | | | | |

**Diolch yn fawr**